



Tribunals Service
Upper Tribunal

Apelio i

SIAMBR APELIADAU GWEINYDDOL YR UWCH DRIBIWNLYS

yn sgil penderfyniadau

**Tribiwnlys Anghenion Addysgol
Arbennig Cymru**

Fersiwn 1 JF

CYNNWYS

Cyflwyniad – tudalen 2

- Ynglŷn â'r daflen hon
- Beth yw Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys?
- Ble mae swyddfeydd Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys?

Pwy gaiff apelio i'r Uwch Dribiwnlys? – tudalen 3

- Apeliadau gan rieni ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant
- Apeliadau gan awdurdodau lleol

Cyn y cewch chi apelio – tudalen 4

Rhesymau dros apelio – tudalen 4

Sut mae apelio – tudalen 4

- Yn gyffredinol
- Sut i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio
- Beth sy'n digwydd os bydd yr Uwch Dribiwnlys yn gwrthod caniatâd i chi apelio?
- Sut i apelio i'r Uwch Dribiwnlys unwaith y byddwch wedi derbyn caniatâd i apelio

Beth sy'n digwydd unwaith y bydd caniatâd wedi'i roi? – tudalen 5

- Sut bydd yr apêl yn mynd rhagddi
- A gynhelir gwrandawriad llafar o'r apêl?
- Beth fydd yn digwydd os cynhelir gwrandawriad llafar?
- Beth ddylech chi ei wneud os byddwch yn canfod na allwch fynychu gwrandawriad llafar
- Beth ddylech chi ei wneud os ydych yn dymuno tynnu eich apêl yn ôl

Penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys ar yr apêl – tudalen 7

-Penderfyniad y barnwr

Materion penodol a all godi ynghylch apeliadau - tudalen 7

- Faint fydd hi'n ei gostio i apelio?
- A oes cymorth cyfreithiol ar gael?
- Cynrychiolwyr

Beth i'w wneud os ydych chi'n anfodlon â phenderfyniad yr Uwch Dribiwnlys? – tudalen 7

- Yn gyffredinol
- Sut i wneud cais i benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys gael ei roi o'r naill du
- Sut i apelio i'r Llys Apêl yn erbyn penderfyniad gan yr Uwch Dribiwnlys
- Sut bydd yr Uwch Dribiwnlys yn ystyried eich cais am ganiatâd i apelio

Ystyr geiriau – tudalen 9

Nodyn cyffredinol– tudalen 10

Cyflwyniad

Ynglŷn â'r daflen hon

Mae'r daflen hon ar gyfer helpu rhieni a phobl eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant, cynrychiolwyr a chynghorwyr. Gall hefyd fod o gymorth i awdurdodau lleol. Mae'n disgrifio'r prosesau sy'n ofynnol er mwyn apelio i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys yn sgil penderfyniad a roddwyd gan **Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)** unwaith y byddwch wedi gofyn i **TAAAC** am ganiatâd i apelio. Mae'n esbonio, yn gryno, y camau mewn apêl cyn i farnwr yr Uwch Dribiwnlys wneud penderfyniad yn ei chylch ac mae'n nodi'r hawliau apelio o benderfyniad barnwr. **Fodd bynnag, canllaw yn unig ydyw, ac nid oes statws cyfreithiol iddo.** Nid yw'n cwmpasu pob agwedd ar bob sefyllfa, nac yn darparu dehongliad llawn o'r rheolau trefniadaethol.

Yn benodol, nid yw'r daflen yn disgrifio unrhyw un o weithdrefnau TAAAC na sut i wneud cais am ganiatâd i apelio i TAAAC, sy'n gam cyntaf hanfodol ar gyfer apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Bydd TAAAC wedi darparu gwybodaeth am hyn.

Beth yw Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys?

- Mae'r Uwch Dribiwnlys yn dribiwnlys apêl newydd a grëwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Y mae'r Siambr Apeliadau Gweinyddol yn rhan o'r Uwch Dribiwnlys sy'n gwrandao ac yn penderfynu ar apeliadau ar bwyntiau cyfreithiol yn sgil penderfyniadau mewn achosion yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n disodli'r hawl i apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol. Ond bydd penderfyniad TAAAC a roddwyd cyn 3 Tachwedd 2008 yn dal yn agored i gael ei herio drwy apelio i'r Uchel Lys.

- Y mae Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys yn cynnwys barnwyr Uchel Lys a barnwyr arbenigol eraill a benodir gan y Frenhines.
- Y mae tîm bychan o gyfreithwyr mewnol a elwir yn Gofrestryddion sy'n gallu cynorthwyo barnwyr yr Uwch Dribiwnlys. Fe'u hawdurdodwyd gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i ddelio â chamau trefniadaethol achosion. **Barnwr fydd bob amser yn penderfynu ar gais am ganiatâd i apelio ac ar apêl.**

Ble mae swyddfydd Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys?

Cyfeiriad Swyddfa Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys ar gyfer cyflwyno ceisiadau am ganiatâd i apelio ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau TAAAC yw:

Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys,
Canolfan Llysoedd Sifil Caerdydd,
2 Heol y Parc,
Caerdydd, CF10 1ET
Ffôn: 02920 376521

Pwy gaiff apelio i'r Uwch Dribiwnlys?

Apeliadau gan rieni ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant

- Gall rhieni apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed gan TAAAC ynglŷn ag anghenion addysgol arbennig eu plentyn. Bydd TAAAC wedi edrych eto ar y gyfraith a'r ffeithiau. Dim ond os oedd penderfyniad y tribiwnlys yn anghywir yn ôl y gyfraith y gellir apelio yn ei erbyn i'r Uwch Dribiwnlys.

Apeliadau gan Awdurdodau Lleol

- Mae gan awdurdod lleol hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn sgil penderfyniad TAAAC. Dyma apêl "swyddogol".
- Os bydd awdurdod lleol yn gwneud cais neu'n apelio i'r Uwch Dribiwnlys, gall penderfyniad TAAAC gael ei atal dros dro naill ai gan y tribiwnlys hwnnw neu gan yr Uwch Dribiwnlys.
- Mae'r un rheolau trefniadaethol yn berthnasol i apeliadau "swyddogol" ag a fyddai'n berthnasol i apêl a wneir gan riant. Eglurir y rheolau hyn yn fyr yn yr adrannau "**Cyn y cewch chi apelio**" a "**Sut i apelio**".
- Os caiff rhiant neu awdurdod lleol ganiatâd i apelio, rhoddir gwybod i'r parti arall gan swyddfa TAAAC neu swyddfa'r Uwch Dribiwnlys.

Cyn i chi apelio

Os ydych yn dymuno herio penderfyniad TAAAC mae'n rhaid eich bod wedi gwneud cais yn gyntaf i TAAAC am ganiatâd i apelio.

Bydd TAAAC wedi dweud wrthyh sut i wneud hyn.

Rhesymau (sail) dros apelio

Dim ond os oedd penderfyniad Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn **anghywir yn ôl y gyfraith** y gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad.

Mae'r enghreifftiau o achosion lle gallai'r tribiwnlys fod yn anghywir yn ôl y gyfraith yn cynnwys:

- Ni ddefnyddiodd y tribiwnlys y gyfraith gywir neu mae wedi dehongli'r gyfraith yn anghywir.
- Gwnaeth y tribiwnlys wall trefniadaethol.
- Nid oedd gan y tribiwnlys dystiolaeth, neu nid oedd ganddo ddigon o dystiolaeth, i gefnogi'i benderfyniad.
- Ni roddodd y tribiwnlys resymau digonol am ei benderfyniad yn y datganiad ysgrifenedig o'i resymau.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain a gall penderfyniad y tribiwnlys fod yn anghywir yn ôl y gyfraith am ryw reswm arall nas crybwyllir yma.

Os ydych chi'n cael eich cynrychioli, bydd eich twrnai chi neu gynghorydd arall yn eich cynghori ynghylch y sail dros apelio a llenwi'r ffurflen ofynnol ar gyfer apelio.

Sut i apelio

Yn gyffredinol

Unwaith eich bod wedi gwneud cais i TAAAC am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys –

- **Os bydd TAAAC yn gwrthod caniatâd i chi, gallwch wneud cais i farnwr yr Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio,**
- **Os bydd TAAAC yn rhoi caniatâd i chi apelio, dylech anfon eich apêl i'r Uwch Dribiwnlys.**

Ceir manylion isod am yr hyn sydd angen i chi ei wneud. Nodir hwy hefyd yn y ffurflen arbennig ar gyfer apelio (UT9) a'r nodiadau sy'n mynd gyda'r ffurflen.

Sut i wneud cais i farnwr yn yr Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio

- Os bydd **TAAAC** yn gwrthod eich cais am ganiatâd i apelio, gallwch wneud cais am ganiatâd i apelio'n uniongyrchol i farnwr yr Uwch Dribiwnlys. **Rhaid i chi bob amser fod wedi gwneud cais i TAAAC i ddechrau.**
- Bydd **TAAAC** yn anfon llythyr atoch i ddweud wrthyfch fod y barnwr wedi gwrthod caniatâd i chi apelio. Yna dylech anfon eich cais i Swyddfa Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys yng Nghanolfan Llysoedd Sifil Caerdydd fel y derbynnir ef yn **ddim hwyrach nag un mis** ar ôl y dyddiad ar y llythyr yn eich hysbysu o ddyfarniad barnwr TAAAC. Dylech ddefnyddio'r ffurflen UT9 y bydd swyddfa'r tribiwnlys yn ei rhoi i chi neu, os na allwch gael gafael ar gopi, dylech ysgrifennu llythyr yn nodi eich rhesymau dros apelio. Dylech amgáu'r dogfennau angenrheidiol. Rhestrir y rhain ar y ffurflenni. Mae'r ffurflenni ar gael ar y wefan hefyd. Gwnewch yn siŵr fod eich cais yn cael ei dderbyn cyn pen mis.
- Gallwch ofyn am wrandawriad llafar o'ch cais am ganiatâd i apelio. Os bydd barnwr yn yr Uwch Dribiwnlys yn caniatáu eich cais dywedir wrthyfch beth fydd y dyddiad a'r lleoliad, fel arfer o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw.
- **Os byddwch yn hwyr yn gwneud cais am ganiatâd**, rhaid i chi ofyn am estyniad amser, gan esbonio pam na wnaed eich cais mewn pryd. Oni bai fod barnwr yr Uwch Dribiwnlys o'r farn y dylid caniatáu estyniad amser i'ch cais, ni fydd eich cais yn cael ei dderbyn, ac **ni fydd modd i chi apelio.**
- Os cafodd eich cais i TAAAC am ganiatâd i apelio ei wrthod am eich bod yn hwyr, dylech egluro paham na wnaed eich cais mewn pryd. Oni bai fod barnwr yr Uwch Dribiwnlys o'r farn y dylid

caniatáu estyniad amser i'ch cais, ni fydd eich cais yn cael ei dderbyn, ac **ni fydd modd i chi apelio**.

- Gallwch dynnu eich cais am ganiatâd i apelio yn ôl unrhyw bryd cyn y gwneir penderfyniad yn ei gylch. Y cyfan y bydd angen i chi ei wneud yw ysgrifennu llythyr i swyddfa'r Uwch Dribiwnlys a'i anfon i'r cyfeiriad a roddir ar ddechrau'r daflen hon. Os ydych yn dymuno gofyn am ailsefydlu eich cais, dylech ysgrifennu at y swyddfa o fewn mis. Os ydych yn hwyr, gallwch ofyn am ragor o amser.

Beth sy'n digwydd os bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys yn gwrthod caniatâd i chi apelio?

- Bydd y swyddfa'n anfon copi o ddyfarniad y barnwr atoch yn gwrthod caniatâd i chi apelio, gan gynnwys y rhesymau.
- Os bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys yn penderfynu ar eich cais am ganiatâd heb wrandawriad llafar ac yn gwrthod caniatâd i chi neu'n rhoi caniatâd ar seiliau cyfyngedig neu'n ddarostyngedig i amodau, gallwch wneud cais ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod i'r penderfyniad gael ei ailystyried mewn gwrandawriad llafar.
- Gall barnwr o'r Uwch Dribiwnlys osod penderfyniad i wrthod caniatâd i apelio o'r naill du os bu anghysondeb trefniadaethol yn yr achos a bod y barnwr o'r farn ei fod er budd cyfiawnder i wneud hynny. Er enghraifft, os yw dogfen sy'n ymwneud â'r achos wedi mynd ar goll, neu os nad oedd parti neu gynrychiolydd yn bresennol mewn gwrandawriad. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i roi o'r naill du **cyn pen mis**.
- Nid oes hawl apelio i'r Llys Apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd i apelio neu wrthod derbyn cais hwyr. Hefyd ni chewch apelio yn erbyn penderfyniad barnwr yr Uwch Dribiwnlys i roi caniatâd i apelio i barti arall.

Sut i apelio i'r Uwch Dribiwnlys unwaith y byddwch wedi derbyn caniatâd i apelio

- Os bydd barnwr TAAAC yn rhoi caniatâd i chi apelio, dylech chi wedyn, neu eich cynrychiolydd, anfon eich apêl i swyddfeydd yr Uwch Dribiwnlys yng Nghaerdydd (gweler uchod) fel y derbynnir ef **ddim hwyrach nag un mis** ar ôl y dyddiad ar y llythyr yn eich hysbysu o ddyfarniad barnwr TAAAC. Dylech ddefnyddio Ffurflen UT9 os gallwch. Fel arall, ysgrifennwch lythyr yn datgan eich bod yn dymuno apelio, gan roi eich rhesymau. Rhaid i chi anfon eich apêl i'r swyddfa yn y cyfeiriad a roddir ar ddechrau'r daflen hon. **Os na yrrwch apêl i mewn o fewn y mis, gallech golli eich hawl i apelio.**
- **Os byddwch yn hwyr**, rhaid i chi ofyn am estyniad amser ac egluro pam na wnaed eich apêl mewn pryd. Oni bai fod barnwr yr Uwch Dribiwnlys o'r farn y dylid caniatáu estyniad amser i'ch cais, ni fydd eich cais yn cael ei dderbyn, ac **ni fydd modd i chi apelio**.
- Os bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys yn rhoi caniatâd i chi apelio, fel arfer, ni fydd angen i chi gyflwyno apêl ar wahân. Os bydd angen, bydd swyddfa'r Uwch Dribiwnlys yn rhoi gwybod i chi.

Beth sy'n digwydd unwaith y bydd caniatâd wedi'i roi?

Sut bydd yr apêl yn mynd rhagddi?

Yn Gyffredinol

- Unwaith y byddwch wedi apelio i'r Uwch Dribiwnlys, neu bod barnwr yn yr Uwch Dribiwnlys wedi rhoi caniatâd i chi apelio, bydd copi o bapurau'r apêl yn cael eu hanfon atoch chi ac at y partïon eraill yn yr achos (a elwir yn atebwyr).

- Bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys yn rhoi rhesymau am roi caniatâd i apelio (oni bai fod caniatâd wedi'i roi gan farnwr TAAAC) a chewch wybod sut y bydd yr apêl yn mynd rhagddi.
- Os yw awdurdod lleol wedi apelio, gofynnir i'r rhiant a oes ganddo/i gynrychiolydd a gofynnir iddo/i (neu eu cynrychiolydd) a yw'n dymuno gwneud sylwadau ar yr apêl.
- Dylech nodi y bydd copïau o'r holl sylwadau a wneir gan un parti yn cael eu hanfon at bob parti arall. Gwneir hyn drwy anfon llythyrau allan yn egluro beth sydd angen ei wneud nesaf, os oes unrhyw beth i'w wneud.

A gynhelir gwrandawriad llafar o'r apêl?

- Gallwch chi neu eich cynrychiolydd ofyn i'ch apêl gael ei gynnal drwy wrandawriad llafar. Fel arfer bydd gwrandawriadau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau rhanbarthol ar draws Cymru. Gellir cynnal gwrandawriadau drwy gyswllt-fideo hefyd. Cewch ofyn am gynnal eich gwrandawriad yn Gymraeg.
- Gall barnwr yr Uwch Dribiwnlys orchymyn y dylid cynnal gwrandawriad llafar hyd yn oed os nad oes neb wedi gofyn am un.

Beth fydd yn digwydd os cynhelir gwrandawriad llafar?

- Unwaith y bydd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer gwrandawriad llafar, anfonir llythyr atoch chi neu eich cynrychiolydd yn rhoi manylion yr amser a'r lleoliad, y cyfleusterau sydd ar gael a map yn dangos sut i gyrraedd yno.
- Fel arfer, bydd y swyddfa yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd o ddyddiad gwrandawriad i chi ond gan amlaf cewch fwy o rybudd na hynny.

- Bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys yn penderfynu ar y drefn mewn unrhyw wrandawriad llafar gan gofio mai dim ond ar sail camgymeriad cyfreithiol y gwneir apelïadau i'r Uwch Dribiwnlys.
- Ni fydd y barnwr fel arfer yn rhoi penderfyniad ar derfyn y gwrandawriad. Fe'i hanfonir atoch chi a phob parti arall wedi i'r gwrandawriad gael ei gynnal.
- Lle bo achos yn codi pwynt cyfreithiol arbennig o bwysig neu anodd, efallai y bydd tri barnwr yn gwrando ar yr achos, yn hytrach nag un.

Beth ddylech chi ei wneud os byddwch yn canfod na allwch fynychu gwrandawriad llafar

- Os byddwch yn canfod nad oes modd i chi fynychu gwrandawriad a bennwyd, dylech hysbysu swyddfa'r Uwch Dribiwnlys cyn gynted â phosibl. **Dylech ysgrifennu, oni bai fod yr amser yn fyr iawn, ac yn yr achos hwnnw caniateir i chi ffonio.**
- Os hoffech chi i'ch gwrandawriad gael ei ohirio, dylech ddweud pam a bydd y barnwr neu'r cofrestrydd yn penderfynu beth ddylai ddigwydd. Gall y barnwr benderfynu bwrw ymlaen i gynnal y gwrandawriad heboch.
- Os na fyddwch yn ymddangos yn y gwrandawriad, bydd y barnwr yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen heboch. **Os cewch eich dal yn ôl yn ystod eich taith i'r gwrandawriad, dylech wneud pob ymgais i ffonio'r swyddfa a rhoi gwybod iddynt ar unwaith.**

Beth i'w wneud os ydych yn dymuno tynnu eich apêl yn ôl

- Os ydych wedi cael caniatâd i apelio, byddwch angen cytundeb barnwr yr Uwch Dribiwnlys arnoch i dynnu'n ôl, felly dylech egluro'ch rhesymau.
- Os yw'r awdurdod lleol wedi apelio, ni chaniateir i'r rhiant dynnu'n ôl o'r apêl. Does dim angen iddynt gymryd unrhyw ran, ond gwneir penderfyniad pa un a fyddant yn cymryd rhan ai peidio.

Penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys ar yr apêl

Penderfyniad y barnwr

- Bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys bob amser yn rhoi ei benderfyniad ef neu ei phenderfyniad hi yn ysgrifenedig.
- Rhaid i'r barnwr roi rhesymau dros gymeradwyo neu wrthod yr apêl, oni bai fod yr holl bartïon wedi penderfynu fel arall.
- Bydd swyddfa'r Uwch Dribiwnlys yn anfon copi o benderfyniad y barnwr atoch. Byddant hefyd yn anfon copi i'ch cynrychiolydd os oes gennych un ac i'r partïon eraill yn yr apêl.
- Os anfonodd y barnwr yr achos yn ôl i gael ei benderfynu eto gan **TAAAC**, byddwch yn derbyn llythyr gan y tribiwnlys hwnnw.
- Os bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys yn gwrthod yr apêl, neu os nad yw canlyniad yr apêl yn gwbl ffafriol i chi, mae gennych hawl i apelio i'r Llys Apêl – ond bydd angen caniatâd arnoch yn gyntaf. Bydd y swyddfa'n anfon llythyr atoch yn dweud wrthyhych am eich hawl i apelio. Ceir mwy o fanylion am hyn yn yr adran "**Beth i'w wneud os ydych chi'n anfodlon â phenderfyniad barnwr yr Uwch Dribiwnlys**".

- Os bydd barnwr yr Uwch Dribiwnlys yn caniatáu'r apêl, efallai y bydd y parti arall (e.e. y rhiant neu awdurdod lleol) am apelio i'r Llys Apêl.

Materion penodol a all godi ynghylch apelïadau

Faint fydd hi'n ei gostio i apelio?

- Nid oes ffi'n daladwy am wneud cais am ganiatâd i apelio neu am apelio i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys.
- Gall yr Uwch Dribiwnlys orchymyn un parti i dalu costau parti arall ond dim ond os yw'r achos wedi'i gynnal mewn modd afresymol.

A oes cymorth cyfreithiol ar gael?

- Efallai y bydd modd i chi gael cyngor cyfreithiol cychwynnol dan gynllun Help Cyfreithiol y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol oddi wrth dwrnai sydd â masnachfaint.
- **Y mae terfynau ariannol ac ni fydd y cynllun fel arfer yn talu am gynrychiolaeth mewn gwrandawiadau llafar. Ond mae adran 6(8)(b) Deddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 yn rhoi'r grym i'r Arglwydd Ganghellor awdurdodi cyllid (a elwir yn gyllid eithriadol) mewn rhai achosion unigol. Gall y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ddarparu rhagor o wybodaeth.**
- Os byddwch yn cael cyllid, rhaid i chi anfon copi o'r hysbysiad ariannu i swyddfa'r Uwch Dribiwnlys a hysbysu'r partïon eraill.
- Mae'n bosibl y gall y mudiadau sy'n darparu cyngor a chymorth mewn achosion gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru eich helpu hefyd yn yr Uwch Dribiwnlys.

Cynrychiolwyr

- Y mae'n agored i chi gael cynrychiolydd, gyda chymwysterau cyfreithiol neu ddim, i'ch helpu i lenwi ffurflen yr apêl, ymdrin â llythyrau oddi wrth swyddfa'r Uwch Dribiwnlys, gwneud ac ymateb i gyflwyniadau, ac ymddangos gerbron y barnwr ar eich rhan os cynhelir gwrandawriad llafar.
- Os bydd eich twrnai neu gynrychiolydd arall am unrhyw reswm yn rhoi'r gorau i'ch cynrychioli, rhaid i chi hysbysu swyddfa'r Uwch Dribiwnlys, neu fel arall mae ganddynt hawl i gymryd yn ganiataol eich bod yn cael eich cynrychioli o hyd a byddant yn anfon dogfennau at y cynrychiolydd ac nid atoch chi.

Beth i'w wneud os ydych chi'n anfodlon â phenderfyniad yr Uwch Dribiwnlys

Yn gyffredinol

- Gallwch wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am i benderfyniad ar apêl gael ei roi o'r naill du ar rai seiliau trefniadaethol cyfyngedig.
- Gallwch apelio i'r Llys Apêl yn erbyn penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys. **Yr ydych angen caniatâd i ddechrau.**
- Mae gan y parti arall yn yr achos gerbron yr Uwch Dribiwnlys yr un hawl ag sydd gennych chi i apelio i'r Llys Apêl.

Sut i wneud cais i benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys gael ei roi o'r naill du

Gall barnwr yr Uwch Dribiwnlys roi penderfyniad o'r naill du os bu anghysondeb trefniadaethol yn yr achos a bod y barnwr o'r farn ei fod er budd cyfiawnder i wneud hynny. Er enghraifft, os yw dogfen sy'n ymwneud â'r achos wedi mynd ar goll, neu os nad oedd parti neu gynrychiolydd yn bresennol mewn gwrandawriad. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i roi o'r naill du, gan gynnwys rhesymau, **cyn pen mis.**

Sut i apelio i'r Llys Apêl yn erbyn penderfyniad gan yr Uwch Dribiwnlys

- Y mae hawl apelio i'r Llys Apêl yn erbyn penderfyniad barnwr yr Uwch Dribiwnlys os yw'n anghywir yn ôl y gyfraith. Rhaid i chi gael caniatâd yr Uwch Dribiwnlys, neu os bydd yr Uwch Dribiwnlys yn gwrthod, gan y Llys.
- Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Llys Apêl yw **o fewn mis i'r diweddaraf o'r canlynol ddigwydd -**
 - ❖ y penderfyniad yn cael ei anfon atoch chi, neu
 - ❖ cael eich hysbysu o resymau diwygiedig dros, neu gywiriad i'r penderfyniad yn dilyn adolygiad (gweler isod), neu
 - ❖ cael eich hysbysu y bu cais i roi o'r naill du yn aflwyddiannus.

Gall y terfyn amser gael ei ymestyn gan farnwr yr Uwch Dribiwnlys.

- Rhaid i chi wneud eich cais yn ysgrifenedig, gan nodi'r camgymeriad neu gamgymeriadau cyfreithiol honedig a datgan am ba ganlyniad yr ydych yn gofyn amdano.

Sut y bydd yr Uwch Dribiwnlys yn ystyried eich cais am ganiatâd i apelio

- Ar gais am ganiatâd i apelio, gall yr Uwch Dribiwnlys adolygu'r penderfyniad a gall ei roi o'r naill du, diwygio'r rhesymau drosto neu ei gywiro os -
 - ❖ wrth wneud y penderfyniad, y bu i'r barnwr ddiystyru darpariaeth ddeddfwriaethol neu awdurdod sy'n rhwymo a allai fod wedi cael effaith o bwys ar y penderfyniad, neu
 - ❖ ers i'r penderfyniad gael ei wneud, fod llys uwch wedi gwneud penderfyniad arall sy'n rhwymo'r Uwch Dribiwnlys, y gallai fod wedi cael effaith o bwys ar y penderfyniad pe byddai wedi cael ei wneud o'i flaen.
- Rhaid i'r Uwch Dribiwnlys hysbysu'r partion yn ysgrifenedig o ganlyniad unrhyw adolygiad (oni bai nad ydynt yn cymryd unrhyw gamau yn dilyn yr adolygiad).
- Os bydd yr Uwch Dribiwnlys yn cymryd unrhyw gamau wrth adolygu heb yn gyntaf roi cyfle i bob parti wneud datganiadau, rhaid iddo ganiatáu i'r parti hwnnw wneud cais i'r gweithredu gael ei roi o'r naill du ac adolygu'r penderfyniad eto.
- Os nad yw'r Uwch Dribiwnlys yn adolygu, neu ar ôl adolygu yn penderfynu peidio â newid y penderfyniad, rhaid iddo benderfynu a yw am roi caniatâd i apelio i'r Llys Apêl ai peidio. Rhaid iddo gofnodi'r penderfyniad yn ysgrifenedig a rhoi rhesymau dros wrthod caniatâd un ai'n gyfan gwbl neu mewn perthynas ag unrhyw un o'r seiliau dros apelio.
- Os bydd yr Uwch Dribiwnlys yn gwrthod caniatâd i chi apelio, gallwch adnewyddu eich cais yn y Llys Apêl.
- Os bydd yr Uwch Dribiwnlys yn rhoi caniatâd i chi, bydd angen i chi apelio i'r Llys Apêl.

- Mae terfynau amser y Llys Apêl yn fyr felly os ydych yn dymuno adnewyddu eich cais neu apelio dylech gysylltu â'r Swyddfa Apeliadau Sifil cyn gynted â phosibl.

Cyfeiriad y Llys Apêl yw:

Y Swyddfa Apeliadau Sifil,
Ystafell E307,
Y Llysoedd Barn Brenhinol,
Strand,
Llundain WC2A 2LL.

E-bost -: civilappeals.registry@HMCS.gsi.gov.uk

Ystyr geiriau

Y mae'r geiriau canlynol un ai'n cael eu defnyddio yn y daflen hon, neu efallai y defnyddir hwy yn y dogfennau a dderbyniwch oddi wrth swyddfa Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys.

- **Ceisydd** yw unigolyn sy'n gwneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.
- Gwneir **apêl** gan unigolyn (neu awdurdod lleol) sydd wedi cael caniatâd i apelio. **Apelydd** yw'r unigolyn, neu gorff arall, sy'n apelio.
- Mae'r **Llys Apêl** yn Llundain yn llys uwch y gallai fod modd i chi apelio iddo yn erbyn penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys.
- **Cyfarwyddyd** yw gorchymyn ysgrifenedig gan farnwr yr Uwch Dribiwnlys, neu gofrestrydd, ynghylch y drefn y mae'n rhaid ei dilyn. Bydd y barnwr yn rhoi Cyfarwyddyd ar gychwyn apêl ynghylch ym mha drefn y mae'r partion i wneud eu cyflwyniadau a'r terfynau amser ar gyfer gwneud hynny.

- Gwneir **sylwadau** gan **atebydd** mewn dogfen ysgrifenedig yn ateb y pwyntiau a wnaed mewn apêl neu'r pwyntiau y mae'r barnwr wedi'u codi mewn **Cyfarwyddyd**. Gelwir sylwadau hefyd yn **gyflwyniadau**.
- Mae **Rhiant** yn cynnwys hefyd unrhyw un nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am y plentyn hwnnw a oedd yn barti i'r apêl yn Nhribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.
- **Caniatâd i apelio** yw'r cam cyntaf hollbwysig yn y broses apelio. Os nad oes gennych chi ganiatâd ni fydd modd i chi apelio.
- **Pwynt cyfreithiol, camgymeriad cyfreithiol ac anghywir yn ôl y gyfraith:** rhoddir enghreifftiau yn yr adran a elwir "**Rhesymau dros apelio**". Dylech gofio y gallai fod pwyntiau cyfreithiol eraill ac os ydych chi'n ansicr efallai yr hoffech geisio cyngor fel y disgrifir yn yr adran honno.
- **Gwall trefniadaethol** yw rhywbeth a aeth o'i le gyda'r drefn mewn apêl. Mae'r rheolau trefniadaethol yng nghyswllt apelïadau i'r Uwch Dribiwnlys wedi'u nodi yn Rheolau Uwch Dribiwnlysoedd 2008. Fodd bynnag, dim ond rhai camgymeriadau cyfyngedig sy'n rhoi hawl i chi i gael penderfyniad **wedi'i osod o'r naill du**. Nodir y rhain yn rheol 43 y Rheolau.
- **Cofrestrydd** yw bargyfreithiwr neu dwrnai sy'n gweithio yn yr Uwch Dribiwnlys ac sydd â hawl i ddelio gyda rhai materion trefniadaethol. **Barnwr** fydd bob amser yn penderfynu ar **gais am ganiatâd** i apelio neu ar **apêl**.
- **Atebydd** yw unigolyn sydd â'r hawl i gymryd rhan mewn apêl neu wrthwynebu apêl a wnaed i'r Uwch Dribiwnlys. Os bydd rhiant neu berthynas agosaf yn apelio, fel arfer hwn fydd yr awdurdod lleol neu'r corff sy'n gyfrifol.

Nodyn Cyffredinol

Mae'r gyfraith sy'n rheoli'r drefn mewn perthynas â cheisiadau i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio ac apelïadau wedi'u nodi yn Rheolau Trefniadaeth Tribiwnlysoedd (Uwch Dribiwnlysoedd) 2008, SI 2008 Rhif 2698 fel y'u diwygiwyd gan SI 2009 rhif 274.